## Optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

## Nodiadau Canllaw

DARLLENWCH Y NODIADAU ISOD YN OFALUS CYN GWNEUD EICH ETHOLIAD.

**Pa fuddion byddaf yn eu colli wrth optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL)?**

Drwy optio allan o'r CPLlL rydych yn colli'r buddion gwerthfawr yma:

- Pensiwn wedi ei warantu, sydd yn cynyddu yn flynyddol, yn daladwy am oes ac yn seiliedig ar eich cyflog.
- Opsiwn i dderbyn lwmp swm di dreth pan fyddwch yn ymddeol.
- Lwmp swm grant marwolaeth o dair gwaith eich cyflog os ydych yn marw, yn daladwy i'r bobl rydych wedi eu henwebu.
- Pensiwn ar gyfer eich gŵr, gwraig, partner sifil neu bartner sy'n cyd-fyw.
- Pensiwn os ydych rhy wael i weithio.
- Ymddeoliad cynnar os ydych yn 55 mlwydd oed neu hŷn ac yn cael eich diswyddo.
- Rhyddhad treth ar eich cyfraniadau.
- Opsiynau i'ch helpu i gael mwy o fuddion drwy dalu cyfraniadau ychwanegol.
- Cyfraniadau gan eich cyflogwr.

**Beth rhaid i mi wneud i optio allan?**

Er mwyn optio allan cwblhewch y ffurflen ynghlwm a'i dychwelyd at eich **cyflogwr**. Bydd cyfraniadau pensiwn yn cael eu hatal o'r gyflogres nesaf sydd ar gael. Os oes gennych aelodaeth o lai na dwy flynedd byddwch yn derbyn ad-daliad o'ch cyfraniadau llai rhyddhad treth. Os oes gennych aelodaeth o ddwy flynedd neu fwy yna bydd eich buddion yn cael eu rhewi yn y cynllun pensiwn nes oed ymddeol.

**Ydych wedi ystyried yr Adran 50/50 yn hytrach nag optio allan?**

Gallai'r Adran 50/50 fod yn opsiwn arall yn lle optio allan. O dan yr Adran 50/50 mae gennych y dewis i dalu hanner eich cyfraniadau arferol i gronni hanner y pensiwn arferol yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, byddwch yn parhau i gael yswiriant bywyd llawn, yswiriant salwch llawn a buddion goroeswr llawn pe byddech yn marw.

Am fwy o wybodaeth a Ffurflen Etholiad Adran 50/50 cysylltwch â Chronfa Bensiwn Gwynedd.

**A allaf ail-ymuno a'r CPLlL yn y dyfodol?**

Gallwch, mae'n bosib ail ymuno'r CPLlL ar unrhyw adeg yn y dyfodol os ydych o dan 75 mlwydd oed ac yn parhau i weithio gyda chyflogwr sydd yn cynnig aelodaeth o'r CPLlL. Cysylltwch â Chronfa Bensiwn Gwynedd neu eich cyflogwr am ffurflen gychwynnol. Noder ni fyddwch yn gallu cyfuno unrhyw fuddion gohiriedig yr oeddech wedi cronni os byddwch yn penderfynu ail-ymuno â'r CPLlL yn y dyfodol.

**A fyddaf yn cael fy ail-gofrestru yn ôl i mewn i'r Cynllun Pensiwn?**

Er mwyn annog mwy o bobl i gynilo tuag at eu pensiwn, o dan ddeddfwriaeth DU mae'n ofyniad i bob cyflogwr gofrestru eu gweithwyr i gynllun pensiwn yn y gwaith os nid ydynt mewn un yn barod. Yr amcan yw helpu mwy o bobl i gael incwm ychwanegol, ar ben eu pensiwn y wlad, pan maent yn ymddeol. Os ydych yn optio allan bydd eich cyflogwr yn eich ail gofrestru i'r CPLlL oddeutu bob 3 blynedd o'r dyddiad y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r darpariaethau ail-gofrestru awtomatig.

**A all fy nghyflogwr ofyn i mi neu fy ngorfodi i ymuno â'r Adran 50/50?**

**NI ALL** eich cyflogwr ofyn i chi neu eich gorfodi i optio allan o'r cynllun. Fodd bynnag, os dyma'r achos, gallwch roi gwybod i'r Rheoleiddiwr Pensiynau drwy fynd i'w gwefan: www.thepensionsregulator.gov.uk

# Ffurflen Optio Allan Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

**Darllenwch y nodiadau drosodd yn ofalus cyn gwneud eich etholiad i optio allan.** Ar ôl cwblhau'r ffurflen hon, dylech ei **DYCHWELYD I'CH CYFLOGWR**. Defnyddiwch inc **DU** os gwelwch yn dda. **Mae'n rhaid i chi gwblhau ffurflen unigol ar gyfer bob swydd yr hoffwch optio allan ohoni.**

## Eich Manylion Personol

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl:** (✓y blwch perthnasol) | **Mr** | | **Mrs** | | **Miss** | | **Ms** | | **Arall** | |
| **Enw Llawn:** | | | | | | | | | | |
| **Rhif Yswiriant Gwladol:** | | | | | | | **Dyddiad Geni:** | | | |
| **Cyfeiriad Cartref:** | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | **Côd Post:** | | | |
| **Rhif Ffôn:** | | | | | | | | | | |
| **Cyfeiriad E-bost:** | | | | | | | | | | |

## Eich Manylion Cyflogaeth

| | |
|---|---|
| **Cyflogwr:** | |

Dynodwch isod, fanylion y swydd yr ydych yn dymuno ei hethol i optio allan ohoni. Os ydych yn dymuno ethol mewn mwy nag un swydd, yna bydd angen i chi gwblhau Ffurflen Etholiad ar gyfer bob swydd.

| | |
|---|---|
| **Rhif Cyfeirnod Cyflogau:** | |
| **Rhif y Swydd:** (os yn berthnasol) | |
| **Teitl y Swydd / Disgrifiad:** | |

## Datganiad

Yr wyf i, y sawl sydd wedi arwyddo isod, yn datgan yr wyf wedi ystyried y buddion o fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) ac ar ôl darllen y nodiadau canllaw, yr wyf wedi penderfynu nid wyf am barhau fel aelod o'r CPLlL. Rwyf yn cadarnhau:

- Yr hoffwn optio allan o gynilo tuag at fy mhensiwn .
- Rwyn deallt os ydwyf yn optio allan rwyf yn colli'r hawl i gyfraniadau pensiwn gan fy nghyflogwr.
- Rwyn deallt os ydwyf yn optio allan efallai y bydd gennyf incwm is pan fyddaf yn ymddeol.

Rwyf hefyd yn deall:

- Os wyf yn optio allan gyda llai nag 2 flynedd o aelodaeth fe all y byddaf yn gymwys i dderbyn ad-daliad o gyfraniadau, llai didyniadau treth ac yswiriant gwladol. Os wyf yn optio allan gyda 2 flynedd neu fwy o aelodaeth bydd fy muddion yn cael eu rhewi fel buddion gohiriedig yn y gronfa Bensiwn hyd at oed ymddeol. Ni fydd ad-daliad o gyfraniadau ar gael.
- Os wyf yn parhau wedi optio allan, bydd fy nghyflogwr fel arfer yn rhoi mi yn ôl i gynilo tuag at fy mhensiwn mewn oddeutu tair blynedd.
- Os wyf yn newid fy swydd, bydd fy nghyflogwr newydd fel arfer yn rhoi mi yn ôl i gynilo tuag at fy mhensiwn yn syth.
- O dan y rheolau ni fydd modd cyfuno buddion gohiriedig gyda aelodaeth newydd yn y dyfodol.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Llofnod:** | | **Dyddiad:** | |

## At Ddefnydd Swyddogol yn Unig

Mae'n gyfrifoldeb y cyflogwr i gydymffurfio â Rheoliadau Cofrestru Awtomatig ac i ad-dalu cyfraniadau drwy'r system Cyflogres os oes gan yr aelod lai na 3 mis o aelodaeth neu i afon hysbysiad terfynu i Gronfa Bensiwn Gwynedd os oes gan yr aelod 3 mis neu fwy o aelodaeth . Mae'n hanfodol fod copi o'r ffurflen optio allan yma yn cael ei hanfon i Gronfa Bensiwn Gwynedd gyda'r rhan isod wedi ei gwblhau. Dylech hefyd gadw'r ffurflen wreiddiol ar gyfer eich cofnodion.

| **Os o dan 3 mis o aelodaeth:** | | **Os 3 mis neu fwy o aelodaeth:** | |
|---|---|---|---|
| **Ffurflen wedi ei derbyn ar:** | / / | **Ffurflen wedi ei derbyn ar:** | / / |
| **Dyddiad dechrau talu pensiwn:** | / / | **Dyddiad dechrau talu pensiwn:** | / / |
| **Cyfraniadau wedi eu stopio ar:** | / / | **Cyfraniadau wedi eu stopio ar:** | / / |
| **Cyfraniadau wedi ad-dalu ar:** | / / | **Hysbysiad Terfynu wedi ei anfon ar:** | / / |